



## PROSIECT: Dull integredig o ddeall a delio â chloffni mewn defaid

### Negeseuon allweddol i fynd adref:

- Cymryd samplau cyfrif wyau ysgarthol (FEC) rheolaidd er mwyn canfod beichiau llyngyr yn gynnar a'u trin yn briodol
- Fe all diffyg elfennau hybrin gael effaith aruthrol ar berfformiad ŵyn, gan leihau'r cyfraddau pesgi dyddiol (DLWG) yn benodol
- Cadw golwg yn ofalus ar gloffni i leihau'r effaith ar berfformiad. Gwelodd Hendre Ifan Goch ostyngiad cyson mewn achosion o gloffni gydol y prosiect

### Y broblem:

Mae gan y ddiadell o famogiaid yn Hendre Ifan Goch statws iechyd uchel iawn, gyda'r ffermwyr Rhys a Russell yn gweithio'n agos â'u milfeddyg i sicrhau'r safonau iechyd a lles gorau posibl i'w diadell. Er gwaethaf hyn, mae sgald yn broblem sy'n codi dro ar ôl tro, wedi i'r cyflwr gael ei ganfod heb unrhyw reswm amlwg yn ystod y tymor tyfu gan effeithio ar eu perfformiad.

### Diben y gwaith:

1. Lleihau'r achosion o gloffni i wella cyfraddau pesgi'r ŵyn.
2. Ymchwilio i'r ffactorau amgylcheddol sy'n effeithio ar achosion o gloffni mewn defaid; yn arbennig achosion o sgald mewn ŵyn yn ystod y tymor pori.

### Yr hyn a wnaethom:

Ym mis Mehefin 2020, cafodd yr ŵyn eu diddychu a chymerwyd samplau FEC gan yr ŵyn i chwilio am lyngyr. Cafodd yr ŵyn ddos o Cydectin ddechrau mis Gorffennaf. Erbyn canol Gorffennaf, cafodd yr ŵyn eu pwyso ac nid oeddent yn ei gwneud hi cystal â'r disgwyl, gyda rhai ond yn ennill 50g/dydd ar gyfartaledd ond ni welwyd dim problemau cloffni. Oherwydd y cyfraddau pesgi araf, cymerwyd samplau FEC bob pythefnos wedi hynny i fonitro'r baich llyngyr

Ar ôl asesu ymhellach, roedd rhai o'r ŵyn llai yn dal i dan-berfformio, felly cymerwyd samplau gwaed, ac anfonwyd un oen am archwiliad post mortem. Cwblhawyd dadansoddiad porthiant ar y glaswellt hefyd.

Ar gyfer tymor 2021, cafodd cloffni ei fonitro a chadwyd yr achosion yn isel tan Awst. Yn Awst, bu farw 20 o ŵyn ar y fferm yn ystod y mis, felly anfonwyd un oen i ffwrdd am archwiliad post mortem i weld beth oedd y

broblem. Ar gyfer ŵyn 2022, penderfynwyd cysylltu â Philipa Page, sy'n arbenigwraig ar ddefaid o Flock Health, i fonitro achosion o gloffni ac i wneud archwiliad mwynau i ganfod unrhyw ddiffygion a allai fod yn effeithio ar berfformiad yr ŵyn.

### Canlyniadau:

Ni chanfuwyd dim strongyles yn y samplau FEC ym Mehefin 2020, ond doedd yr ŵyn yn dal ddim yn perfformio'n ôl y disgwyl. Ar ôl eu dosio â Cydectin, roedd 40 allan o'r 135 o ŵyn yn dal i golli pwysau. Fe wnaeth set arall o samplau FEC ddangos straen pathogenig o Coccidiosis, heb ddim Nematodirus na Strongyles yn bresennol, felly, cafodd pob oen ei ddosio yn erbyn Coccidiosis.

Erbyn diwedd Gorffennaf, roedd yr ŵyn mwy a oedd yn dangos cyfraddau pesgi o 460g/dydd ar gyfartaledd, yn dangos rhai achosion o sgald, ond ni chafwyd dim achosion yn yr ŵyn llai. Dangosodd y samplau gwaed fod y rhan fwyaf o'r ŵyn a samplwyd yn dioddef o lefelau cobalt isel yn y gwaed, fel y gwelir yn y tabl canlyniadau isod.

Tabl 1. Canlyniadau samplau gwaed ar gyfer ŵyn ym Hendre Ifan Goch ym mis Gorffennaf 2020.

CANLYNIADAU'R PROFION				
Anifail	Copr µmol/l 9.0-19.0	Fitamin B12 pmol/L > 221	GSH-Px U/mL RBC > 50	
8437	10.8	L 150		>166
8624	16.8	L 170		>166
8550	11.9	333		>177
8093	10.0	L <111		>166
8348	14.8	>550		>144
8502	16.9	308		>148
8938	12.2	L 202		>161
8505	15.0	L 152		>152
8342	14.3	L 150		>166
8464	H 19.7	412		>137

Roedd hyn yn annisgwyl, gan fod yr ŵyn yn cael eu dosio'n rheolaidd ag atchwanegiad cobalt. Rhoddwyd pigiad atchwanegiad B12 i'r ŵyn ar ôl cael y canlyniadau hyn. Er gwaethaf y canlyniadau hyn, o'r canlyniadau, roedd yn dangos nad yr ŵyn a oedd wedi colli'r mwyaf o bwysau o anghenraid oedd yr ŵyn a oedd fwyaf diffygiol mewn cobalt.



## LLEOLIAD: Pen-y-bont ar Ogwr



## FFERM:

Sector: Cig Coch

Niferoedd stoc a brid:

730 o ddefaid (miwl Aberfield a miwls Cymreig)

Maint y fferm (ha): 91ha

Cynlluniau rheoli tir: Dim

Misoedd wyna: Ionawr a Mawrth

System bori:

System padogau cylchdro

Arallgyfeirio ac arloesi:

Cynllun trydan dŵr 5.5kW,

Pysgodfa frithyll a pharc fferm (yn cael ei rhentu allan fel lleoliad priodasau a digwyddiadau),

Maes carafanau a gwersylla,

Sied ddefaid ar slatiau

## AMCANION Y FFERM

1

Gwella ôl-troed carbon y fferm

2

Gwella iechyd yr anifeiliaid

3

Lleihau costau cynhyrchu



## PROSIECT: Dull integredig o ddeall a delio â chloffni mewn defaid

Dangosodd canlyniadau'r archwiliad post mortem faich llyngyr cymysg, gan gynnwys presenoldeb Teladorsagia a Nematodirus battus. Y difrod i'r perfedd ar ôl Coccidiosis, yn ogystal â'r baich llyngyr uchel, yw achos mwyaf tebygol y cyfraddau tyfu is. Un pryder arall oedd y ffaith bod yr ŵyn yn cael eu pwyso'n aml, yn enwedig straen gwres yn ystod misoedd yr haf a chael eu cadw oddi wrth eu bwyd am gyfnod. Nid oedd y dadansoddiad porthiant a wnaed ar y glaswellt yr oedd yr ŵyn yn ei bori ar y pryd yn dangos dim gwir ddiffygion mwynau. Yn ystod tymor 2020, nid oedd cloffni yn broblem fawr, ond daeth perfformiad gwael yn fwy o broblem.


Cafodd cloffni ei fonitro'n agos ar gyfer ŵyn 2021, gyda'r achosion yn cael eu cadw dan 0.5% tan mis Gorffennaf 2021, pan ddechreuodd yr achosion o gloffni gynyddu gydag ŵyn yn arddangos symptomau sgaldio.

Nid oedd dim cysylltiadau nodweddiadol rhwng tymheredd yr aer, patrymau'r tywydd a chloffni, ac roedd uchder y borfa yn amrywio rhwng 1,400 a 2,400kgDM/ha. Yn ystod Awst 2021, bu farw oddeutu 20 o ŵyn heb ddim rheswm amlwg, felly anfonwyd un oen am archwiliad post mortem gyda'r canlyniadau'n dangos difrod trawiadol i'r ysgyfaint gyda phliwrisi.

Yn 2022, cwblhawyd archwiliad o elfennau hybrin, gan roi ystyriaeth i'r cyflenwad elfennau hybrin dros gyfnod 12 mis. Dangosodd canlyniadau'r archwiliad nad oedd dim problemau mawr gyda chyflenwad y rhan fwyaf o'r macro-fwynau, ond fe wnaeth yr archwiliad amlygu diffygion yn y cyflenwad o iodid a diffygion ymylol mewn seleniwm a chobalt o'u hasesu yn erbyn y gofynion dietegol ar gyfer y dosbarthiad stoc.



### Mamogiaid:



### Ŵyn:




Figure 1. Iodine requirement and supply for ewes and lambs.

Dengys y graffiau uchod bod y cyflenwad iodid o'r borfa yn is na'r gofynion ar gyfer ymamogiaid a'r ŵyn oedd yn tyfu, fel ei gilydd. Roedd y lefelau cyfredol o atchwanegiadau a roddwyd i'r mamogiaid drwy ddos neu folws yn ddigonol ar gyfer seleniwm a chobalt, ond nid oedd iodid i'w gael yn yr atchwanegiadau hyn. Felly, fe'u cynghorwyd i ddefnyddio atchwanegiad a oedd yn cynnwys iodid, seleniwm a chobalt cyn wyna a chyn hyrdda.

Gwelwyd rhai achosion o gloffni yn ŵyn 2022; cawsant eu dal, eu harchwilio a'u trin, os oedd angen, cyn gynted ag y gwelwyd eu bod yn gloff. Er iddo fod yn haf sych, mae'r ŵyn wedi'i

gwneud hi'n dda gydag oddeutu 80 o ŵyn ar y fferm ym mis Hydref.

### Ymchwil ar waith/10 cam gweithredu ar gyfer eich fferm:

1. Cymryd samplau FEC yn rheolaidd i fonitro'r baich llyngyr
2. Gweithio'n agos gyda'ch milfeddyg i ddatrys unrhyw farwolaethau/problemau iechyd anesboniadwy
3. Ystyried y gofynion ynni a'r cyflenwad macro-fwynau
4. Ymchwilio i gloffni cyn gynted ag y'i gwelir